



## Polisi Gwrth Fwlio

Mae PAWB yng nghymuned Ysgol Gymraeg Blaendulais gyda'r hawl i deimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol ac i gael eu trin gydag urddas a pharch, fel bod yr ysgol yn rhydd oddi wrth bygythiad ofn fel y gall ein disgyblion ddysgu a thyfu mewn amgylchedd lle gallant wneud cyfraniad positif a chyflawni eu potensial. Ni oddefir ac ni anwybyddir bwlio yn ein hysgol ni.

### BETH YW BWLIO ?

Bwlio yw ymddygiad sy'n cael ei ail adrodd, ac sydd yn fwriadol gyda'r amcan i frifo, dychrynu neu eithrio – prun ai bwriedir neu ddim. Mae gwahanol fathau o fwlio, ond y prif fathau yw:

- **CORFFOROL** Taro, cicio, cymryd eiddo gan gynnwys arian
- **GEIRIOL** galw enwau, sarhau, ysgrifennu nodiadau angharedig
- **EMOSIYNOL** bod yn anghyfeillgar, eithrio, poenydio, lledaenu straeon, ysgyrnygu
- **GWAHARDDIAD** gall ddisgybl gael ei fwlio yn syml drwy gael ei eithrio allan o drafodaethau / gweithgareddau gyda'r rhai y credent yw eu ffrindiau
- **DIFRODI EIDDO/LLADRAD** Disgyblion yn colli eu heiddo neu wedi'i ddifrodi. Gellir cael bygythiadau corfforol gan y bwli i orfodi'r disgybl i roi ei eiddo iddo
- **SEIBER** mae bwlio seiber yn broblem fwy diweddar sydd wedi datblygu drwy ddefnydd cynyddol o ffonau symudol a'r rhyngrwyd. Fe all gynnwys bygythiadau neu alw enwau drwy ystafelloedd sgwrsio rhyngrwyd, tudalennau'r we, negeseuon destun neu alwadau ffôn. Gall hefyd olygu cam ddefnydd o dechnoleg berthynol fel camerâu a chyfleusterau fideo.

## **BETH SYDD DDIM YN FWLÏO ?**

Mae plant a phobl ifanc o'r un oedran weithiau yn anghytuno a all arwain at ymladd neu ddadleuon. Yn y sefyllfa yma nid oes anghydbwysedd grym ac ni ddefnyddir bygythiadau. Mae'r mathau yma o anghytundeb yn ofidus ac anodd ond nid ydynt yn bwlio. Un o'r pethau sydd yn bwysig i blant a phobl ifanc i'w dysgu yw sut i ddatrys gwrthdaro oherwydd gall wrthdaro heb ei ddatrys arwain at ddieter a llid. Gall y math hwn o ymddygiad arwain at ymddygiad bwlio os na fydd y gwrthdaro'n cael ei drin yn fuan.

## **LLE MAE BWLIO'N DIGWYDD?**

Gall bwlio ddigwydd mewn amrywiol lefydd, yn yr ysgol, ar y bysiau, clybiau ieuencid, cymunedau, strydoedd, mannau hamdden, drwy'r rhyngwrwd a ffonau symudol.

## **PWYNTIAU CYFFREDINOL**

- Gall bwlio gymryd sawl ffurf. Gall adael y plant wedi'u brifo, mewn trallod ac wedi'u dychryn. Dim ond trwy gydnabod yn agored y problemau a achosir gan fwlio a thrwy geisio cael y gymuned ysgol gyfan – disgyblion, rhieni, athrawon a staff cynorthwyol – allwn ni obeithio i'w drin yn effeithlon.
- Anogir adrodd am fwlio – fe'i gwelir fel gweithred ddewr yn hytrach na gweithred gan berson gwan. Bydd y rhai sy'n adrodd am fwlio yn cael eu trin yn ddifrifol a'u cefnogi wrth sefyll i fyny yn erbyn y bwli.
- Bydd yr holl achosion o fwlio yn cael eu cofnodi gan yr Uwch Dim Rheoli

- Atgoffir disgyblion, trwy amser cylch, Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gwasanaethau am effaith ddifrodol bwlio ar y dioddefwyr a bod unrhyw ffurf o fwlio yn annerbyniol.
- Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r angen i annog myfyrwyr i adrodd bwlio ac i gael y sgiliau i ymdrin â'r mater yn synhwyrol fel bod y broblem yn cael ei ddi-ddymu yn hytrach na chael ei phasio ymlaen i achlysur arall.

### **Cymorth ar gyfer y disgyblion**

- Credwn fod yr ysgol yn gymuned lle gwerthfawrogir **ymdiriedaeth a gonestrwydd** gan bawb ac mae'n lle lle mae'r disgyblion gyda'r hawl i deimlo'n saff a diogel.
- Byddwn bob amser yn cymryd adroddiadau bwlio o ddifrif ac yn siarad gyda disgyblion yn **gyfrinachol** ac mewn dull **sympathetig**.
- Byddwn yn ymdrin â sefyllfaoedd **yn gyflym, yn gadarn ac mewn dull sensitif**.
- **Cefnogir** disgyblion sydd wedi'u bwlio neu wedi dioddef ymddygiad bygythiol er mwyn dod dros eu problemau.
- Trwy'r flwyddyn ysgol bydd **codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth** am faterion bwlio yn cael eu hamlygu drwy – ABCh, amser cylch a gwasanaethau.
- Fe roddir **proffil uchel** yn yr ysgol i faterion bwlio a fydd yn atgoffa disgyblion am ddifrifoldeb bwlio a bydd yn cynorthwyo annog **bod yn agored** wrth ddatgelu digwyddiadau bwlio.
- Rydym yn rheolaidd yn **adolygu** ein polisi gwrth fwlio, a gall disgyblion trwy Gyngor yr Ysgol, roi sylwadau a chynnig awgrymiadau i geisio gwella ein dulliau o ymdrin â'r bwllis.

Mae cynllun cymorth cyfoedion yr ysgol – Bydis Blaendulais – yn galluogi disgyblion i siarad gyda myfyrwyr Blwyddyn 6, sydd wedi eu hyfforddi mewn sgiliau gwranddo, yn ystod amser egwyl.

### **Cymorth ar gyfer y rhieni**

Hysbysir rhieni o bolisi'r ysgol a'r dulliau gweithredu ar wefan yr ysgol.  
Fe gaiff achlysuron o fwlio a adroddir gan rieni eu hymdrin yn yr un  
ffordd a'r rhai a adroddir gan y disgyblion.

### **Cyfrifoldeb Staff**

Bydd yr holl staff addysgu a staff cynorthwyol yn cymryd  
cyfrifoldeb dros fod yn gyfarwydd â'r polisi gwrth fwlio.  
Fel oedolion o fewn cymuned ysgol mae angen arnom i fod yn  
ymwybodol o fwlio posibl ac i fod yn wyladwrus gyda'r arwyddion bod  
disgybl yn cael ei fwlio. Byddwn yn gwneud ymdrech i faethu amgylchedd lle  
mae'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a datblygwn awyrgylch  
sy'n eu canatau i adrodd digwyddiadau bwlio. Byddwn bob amser yn cymryd  
adroddiadau bwlio o ddifrif ac yn gwrando ar yr hyn sydd gan y disgyblion i'w  
ddweud. I gychwyn bydd hyn yn golygu gwrando ar yr hyn sydd gan y  
dioddefwr i'w ddweud, a chysuro'r dioddefwr a pharhau i gynnig cymorth,  
cyngor a chefnogaeth. Byddwn yn gwneud yn siŵr y byddwn bob amser ar  
gael i siarad gyda disgyblion i ddarganfod os yw pethau wedi gwella. Fel staff  
rydym bob amser yn gwrthod iaith anwedus pryd bynnag rydym yn ei glywed  
ac yn arbennig o wyladwrus i ymddygiad hiliol, rhywiol neu wahaniaethol  
arall. Byddwn yn brydlon, trwyadl a dibynadwy gyda'n dyletswydd arolygu.  
Mae hyn yr un mor briodol gyda gwersi, amseroedd egwyl a chinio.  
Trwy hyfforddiant mewn swydd fel staff byddwn yn mabwysiadu dull  
gweithredu cyson i ymdrin â bwlio.

### **Roliau Llywodraethwyr**

Bydd y llywodraethwyr yn ymwybodol a chymeradwyo polisi gwrth fwlio'r  
ysgol. Byddant yn cefnogi staff yr ysgol wrth weithredu'r polisi. Byddant yn  
adolygu a monitro effeithlonrwydd y polisi yn rheolaidd.

## **Sut fydd bwlio yn cael ei fonitro ?**

Dylai staff adrodd holl achlysuron bwlio i'r Uwch Dim Rheoli a fydd yn cofnodi'r holl ddigwyddiadau mewn Ffeil Cofnod Bwlio. Bydd y ffeil cofnod yn cael ei ddadansoddi bob tymor gan yr Uwch Dim Rheoli a bydd aelod o'r Uwch Dim Rheoli yn gweld os bydd angen gweithredu yn erbyn unigolion.

## **Pa weithredu bydd yn cael ei gymryd os bydd cwyn wedi cael ei wneud?**

Wrth ymateb i achlysuron bwlio dylai'r holl staff weithredu pan fydd bwlio'n cael ei adrodd drwy :

- Weithredu cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Hysbysu'r Uwch Dim Rheoli a fydd yn arwain yr ymholiad.
- Bydd yr Uwch Dim Rheoli yn rhoi cyfweiliad i'r unigolion yn y mater ac yn casglu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl.
- Gwneud hi'n glir i'r bwli bod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol
- Sefydlu os yw'r digwyddiad yn rhan o batrwm
- Annog y bwli i weld safbwynt y dioddefwr
- Penderfynu ar gosb addas (e.e. sesiwn gosb, gwaharddiad mewnol ayyb)
- Egluro pam y rhoddir cosb
- Rhannu gwybodaeth gydag aelodau eraill o'r staff.
- Bydd yr Uwch Dim Rheoli yn cysylltu gyda'r rhieni o'r ddwy ochr os yn briodol ac eto'n pwysleisio pwysigrwydd casglu gwybodaeth.

## **Beth sydd yn digwydd i fwllis?**

Cam 1: Rhybudd geiriol ffurfiol a sesiwn/sesiynau cosb.

Cam 2: Llythyr / galwad ffôn gartref yn amlinellu'r digwyddiad a'r canlyniadau petai ymddygiad pellach o'r fath eto.

Cam 3: Cyfarfod Disgyblaeth (Uwch Dim Rheoli, Rhieni a'r disgybl). Rhieni'n cael eu gofyn i gefnogi'r ysgol a gweithio i gywiro ymddygiad eu plentyn a sancsiwn ffurfiol


Cam 4: Cyfeirio at asiantaethau allanol am gefnogaeth ymddygiad


Mewn achlysuron difrifol, gall rhai camau gael eu gadael allan.

Llofnod.....

Dyddiad.....

Cadeirydd.....







.....

